# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

Mae Llantarnam Grange yn chwilio am leisiau newydd ym myd celf a chrefft cyfoes i arddangos yn ein sioe flynyddol i raddedigion, Portal.

Os ydych wedi graddio oddi ar unrhyw gwrs BA neu MA (Anrh) mewn celfyddyd gymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2026, yna rydych yn gymwys i ymgeisio.

**Beth yw Portal?**

Mae Portal yn gyfle i bymtheg o grefftwyr, artistiaid, dylunwyr, ffotograffwyr a gwneuthurwyr sy'n graddio gymryd rhan yn yr arddangosfa flynyddol o artistiaid graddedig yn Llantarnam Grange, Cwmbrân, De Cymru.

Mae Portal hefyd yn sgwrs ehangach ynglŷn â'ch ymarfer a'ch uchelgeisiau, lle mae'r staff a'r gweithwyr llawrydd cynorthwyol yn gweithredu fel seinfwrdd a rhwydwaith – gan eich helpu i ddatblygu gyrfa iach yn y sector.

**Beth sydd ar gynnig?**

Mae Portal yn gyfle i gymryd rhan mewn arddangosfa grŵp a gynhelir yn Oriel 1 yn Llantarnam Grange. Bydd yr artistiaid a ddewisir yn cael profiad o arddangos eu gwaith i'r cyhoedd, bod yn rhan o gyhoeddiad, a datblygu cymunedau artistig newydd.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com



Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

Trwy gydweithio'n agos â'n tîm, byddwch yn cael cyfle dysgu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddeall sut brofiad yw gweithio yn y celfyddydau.

Bydd rhai cyfleoedd mentora mewnol ar gael gyda'n Cyfarwyddwr, y Swyddog Arddangosfeydd, yr Uwch Swyddog Ymgysylltu neu'r Swyddog Datblygu a Marchnata.

**Bydd pob artist sy'n arddangos yn derbyn ffi o £100** am gymryd rhan. Bydd angen i chi drefnu cludiant i ddanfon y gwaith at yr oriel eich hunan neu gan gludwr.

Byddwn yn talu'r costau dychwelyd, ond os gallwch gasglu eich gwaith mewn person, a gallwn gynnig ffi o £50 i chi.

**Ein Horiel**
Cynhelir Portal yn Oriel 1. Hwn yw ein man arddangos mwyaf, ond serch hynny, mae'n gymharol fychan. Gweler y lluniau o'n harddangosfeydd Portal blaenorol a Chynllun yr Oriel isod.

Os hoffech ymgeisio gyda darn mawr o waith, ystyriwch faint o le bydd hyn yn ei adael i'r 14 o artistiaid eraill. Os yw'r gwaith yn fawr, argymhellwn eich bod yn dangos ffyrdd gwahanol o'i arddangos, fel y bydd y panel yn gallu deal yn well sut allai weithio yn yr oriel.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'n Swyddog Arddangosfeydd, Savanna Dumelow yn: hello@llantarnamgrange.com

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com



Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

# PORTAL 2026

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

## Cymhwysedd

- Rhaid i chi fod wedi graddio gyda BA (Anrh) neu MA yn y celfyddydau cymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2026.
- Byddwn yn cynnig pum lle o leiaf i artistiaid mwyafrif byd-eang, artistiaid anabl, ac/neu artistiaid sy'n siarad Cymraeg.

## Faint mae'n costio?

Ni chodir unrhyw dâl am ymgeisio i Portal nac am gymryd rhan. Byddwn yn talu £100 o leiaf i artistiaid am gymryd rhan.

## Dyddiadau Allweddol

- Dyddiad cau: 10am dydd Gwener 17 Gorffennaf 2026
- Rhaid anfon yr holl ddatganiadau artist a delweddau artist at y Swyddog Arddangosfeydd erbyn 7 Awst fan bellaf.
- Rhaid cyflwyno'r gwaith erbyn 2 Medi 2026 fan bellaf.
- Dyddiadau'r Arddangosfa: 12 Medi – 21 Tachwedd 2026
- Digwyddiad Agoriadol: 12-2pm, dydd Sadwrn 12 Medi 2026. Byddwn yn cynnal sesiwn Ysgrifennu Datganiad Artist cyn y dyddiad agor, a digwyddiadau eraill efallai fel rhan o'n harddangosfa yn Oriel 2, '*Bananas*' gan Ed Lewis.
- Sgyrsiau Portal Blaenorol: 2pm, dydd Sadwrn 21 Tachwedd. Bydd dau artist o arddangosfeydd

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

@llantarnam.grange @llantarnam_grange @LlantarnamGrnge

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com

Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

Portal blaenorol yn rhannu eu hymarfer a'u profiadau ers graddio. Bydd hwn yn gyfle i gasglu eich gwaith hefyd.

- Rhaid trefnu dychwelyd y gwaith erbyn 4 Rhagfyr 2026 fan bellaf.

*Os bydd rhaid i'r dyddiadau hyn newid, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl artistiaid cyn gynted â phosibl.*

**Sut gallaf wneud cais?**

Llenwch ein ffurflen gais ar-lein **yma**
https://form.jotform.com/261673370807360

Mae hyn yn cynnwys

- 100 o eiriau'n esbonio pam fod gennych ddiddordeb yn Portal 2026
- Datganiad artist 150 o eiriau
- Hyd at dair delwedd, yn dwyn label gyda'ch enw a theitl y celfwaith, ac/neu ddogfen sy'n cynnwys dolennau i hyd at dair ffeil fideo (sy'n cael eu lletya'n gyhoeddus ac yn weladwy ar vimeo/youtube ac ati)

Os hoffech gael cyngor ar yr hyn a ddisgwyliwn mewn datganiad artist, gweler ein Taflen Awgrymiadau ar Ddatganiadau Artist **yma.**
https://llantarnamgrange.com/wp-content/uploads/2025/06/Artist-Statement-Tip-Sheet.pdf

Maint mwyaf y ffeiliau i'w lanlwytho yw 10MB.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com



Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

Byddwch cystal â chyflwyno eich cais cyn **10am, dydd Gwener 17 Gorffennaf 2026.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Portal 2026 neu'r broses, neu os hoffech drafod eich cais neu syniadau, cysylltwch â Savanna Dumelow yn: hello@llantarnamgrange.com

Rydym yn deall y gall dyddiadau cau fod yn drafferthus ac yn anodd eu cyflawni am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os teimlwch y byddech yn hoffi ymgeisio ond, am ba reswm bynnag, ni fyddwch yn gallu cwrdd â'r terfyn amser, cysylltwch â ni a byddwn yn hapus i drafod cynllun gennych yn anffurfiol ac yn gyfrinachol.

### Datganiad Deallusrwydd Artiffisial

Mae Portal yn gyfle sy'n ceisio dathlu sgiliau creadigol trwy gelf a chrefft newydd. Caiff pob cais ei asesu'n bersonol gan staff Llantarnam Grange ac unigolion gwâdd ar ein panel dethol.

Rydym yn deall y gall Deallusrwydd Artiffisial fod yn erfyn defnyddiol, fodd bynnag mae gennym ddiddordeb yn eich gwaith, eich safbwynt, a'r syniadau sydd wedi ei lywio. O ran ysgrifennu, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod gwybodaeth yn glir ac yn hygyrch i'n hymwelwyr a'n cynulleidfaoedd.

Gweler ein Taflen Awgrymiadau ar Ddatganiadau Artist i ddeall yn well yr hyn rydym yn chwilio amdano.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com



Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

**Beth yw'r broses?**

Ar ôl y dyddiad cau, **dydd Gwener 17 Gorffennaf 2026,** bydd staff Llantarnam Grange yn casglu ac yn adolygu'r cynigion gyda chymorth 1 neu 2 ddewiswr allanol annibynnol, i'w gadarnhau.

Bydd yr artistiaid yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad erbyn **dydd Gwener 7 Awst 2026** fan bellaf, a byddwn yn ceisio cynnig adborth gan y panel dethol os gofynnir amdano.

Bydd disgwyl i'r artistiaid a ddewisir ddarparu gwybodaeth a lluniau o'u gwaith mewn da bryd, fel y bydd digon o amser gennym i gynhyrchu a churadu'r arddangosfa erbyn y digwyddiad agoriadol ar **ddydd Sadwrn 12 Medi 2026**.

Ar ôl i'r arddangosfa ddiweddu ar **ddydd Sadwrn 21 Tachwedd 2026**, gofynnwn i'r holl artistiaid a ddewiswyd gasglu neu drefnu dychwelyd eu gwaith gyda'n Swyddog Arddangosfeydd, heb fod yn ddiweddarach na **dydd Gwener 4 Rhagfyr 2026**.

Pob lwc!



Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

### Arddangosfeydd Portal Blaenorol:








Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com




Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241

LLANTARNAM GRANGE

# PORTAL 2026

## Terfyn amser ar gyfer cynigion: 10am, 17 Gorffennaf 2026

### Cynllun yr Oriel:





Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

hello@llantarnamgrange.com
01633 483321
www.llantarnamgrange.com





Elusen Gofrestredig rhif Registered Charity No: 1006933
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant rhif Company Limited by guarantee No: 2616241